## Yr holl staff heblaw am Athrawon - Hawl i Dâl Salwch Galwedigaethol

**Yn ystod y flwyddyn gyntaf o wasanaeth** - 1 mis ar gyflog llawn ac (ar ôl cwblhau 4 mis o wasanaeth) 2 fis ar hanner cyflog.

**Yn ystod yr ail flwyddyn o wasanaeth -** 2 fis ar gyflog llawn a 2 fis ar hanner cyflog.

**Yn ystod y drydedd flwyddyn o wasanaeth -** 4 mis ar gyflog llawn a 4 mis ar hanner cyflog.

**Yn ystod y bedwaredd a'r bumed flwyddyn o wasanaeth** - 5 mis ar gyflog llawn a 5 mis ar hanner cyflog.

**Ar ôl pum mlynedd o wasanaeth** - 6 mis ar gyflog llawn a 6 mis ar hanner cyflog.

## Staff addysgu – Hawl i Dâl Salwch Galwedigaethol

Mae hawl athro/athrawes i gyflog yn ystod absenoldeb salwch wedi'i nodi yn y Llyfr Bwrgwyn.

Mae hawl i dâl salwch yn dibynnu ar wasanaeth parhaus gydag un neu fwy o Awdurdodau Addysg Lleol. Mae'r flwyddyn hawl yn rhedeg o 1 Ebrill i 31 Mawrth ac mae hawl newydd yn dechrau bob blwyddyn ar 1 Ebrill. Pan fydd athro/athrawes yn absennol oherwydd salwch ar 31 Mawrth mewn unrhyw flwyddyn, ni fydd unrhyw hawliau newydd yn dechrau nes bod yr athro/athrawes wedi dychwelyd i'w ddyletswyddau/dyletswyddau ac ystyrir bod y cyfnod o 1 Ebrill hyd nes y bydd yn dychwelyd i'w ddyletswyddau/dyletswyddau yn rhan o hawl y flwyddyn flaenorol. Dim ond diwrnodau gwaith sy'n cael eu defnyddio at ddibenion cyfrifo.

**Pan fydd athro/athrawes yn symud i gyflogwr arall, bydd unrhyw dâl salwch a dalwyd yn ystod y flwyddyn bresennol gan y cyflogwr blaenorol yn cael ei ystyried wrth gyfrifo swm a hyd y tâl salwch sy'n daladwy gan y cyflogwr newydd.**

**Hyd y cyfnod gwasanaeth** **Graddfa'r lwfans**

Yn ystod y flwyddyn gyntaf o wasanaeth 25 diwrnod gwaith ar gyflog llawn ac, ar ôl cwblhau pedwar mis calendr o wasanaeth, 50 diwrnod gwaith ar hanner cyflog.

Yn ystod yr ail flwyddyn o wasanaeth 50 diwrnod gwaith ar gyflog llawn a 50 diwrnod gwaith ar hanner cyflog.

Yn ystod y drydedd flwyddyn o wasanaeth 75 diwrnod gwaith ar gyflog llawn a 75 diwrnod gwaith ar hanner cyflog

Yn ystod y bedwaredd flwyddyn a'r blynyddoedd dilynol 100 diwrnod gwaith ar gyflog llawn a 100 diwrnod gwaith ar hanner cyflog.